

DILYW ADEG NOA A'I YSTYR I CHI

Nodyn i'r siaradwr:

Gad i'r Beibl berswadio'r gynulleidfa (1) fod y Dilyw yn ddigwyddiad hanesyddol, (2) fod Jehofa yn mynd i ddinistrio'r byd drwg presennol, a (3) fod ein goroesiad yn dibynnu ar feithrin yr un fath o ffydd â Noa, a'i rhoi ar waith

ROEDD Y DILYW BYD-EANG YN DDIGWYDDIAD HANESYDDOL (7 mun.)

Y Beibl yw ein hawdurdod, ac mae'n dysgu bod y Dilyw yn ddigwyddiad go iawn

Mae'r Beibl yn cynnwys manylion penodol ynglŷn â hanes y Dilyw (Ge 7:11; 8:4, 13, 14)

Roedd Iesu, Mab Duw, yn dyst i'r digwyddiad (Mth 24:37-39; w03-E 5/15 6 ¶7)

Mae tystiolaeth yn bodoli sy'n gyson â hanes y Dilyw: (1) tystiolaeth ddaeargol, (2) tystiolaeth ffosil, a (3) chwedlau poblogaidd (w08-E 6/1 8; w02-E 3/1 4; g-E 5/09 16-17)

Pam ei fod yn bwysig p'un ai digwyddodd y Dilyw neu beidio?

DINISTR BYD ANNUWIOL YN GOSOD PATRWM I'N DYDDIAU NI (12 mun.)

Cymharodd Iesu 'dyddiau Noa' i 'ddyfodiad Mab y Dyn' [**Darllena Mathew 24:37**]

Pa fath o gyflwr oedd yn bodoli cyn y Dilyw? Beth rydyn ni'n ei weld sy'n debyg i hynny yn amser y diwedd?

Difaterwch cyffredinol (Mth 24:38, 39)

Heddiw, mae nifer o bobl yn gwawdio'r rhai sy'n pregethu'r newyddion da (2Pe 3:3, 4)

Dylanwad y cythreuliaid (Ge 6:1, 2; w08-E 6/1 5 ¶2-4)

Mae llawer o raglenni teledu a ffilmiau yn adlewyrchu diddordeb mawr mewn ysbrydegaeth

Mewn nifer o wledydd, mae pobl yn dathlu gŵyl y meirw ar bron yr un dydd i'r Dilyw ddinistrio'r drygionus (w02-E 3/1 4 ¶2; rs-E 181 ¶1-2)

Llygredd rhywiol (Ge 6:4; w03-E 12/15 16 ¶10-12)

Heddiw, mae pornograffi, rhyw cyn priodi, godineb, a gwrywgydiaeth yn bethau cyffredin (Rhu 1:26, 27)

Trais yn gyffredin (Ge 6:11; w03-E 12/15 16-17 ¶13-15)

Yn aml heddiw, mae penawdau'r cyfryngau newyddion yn llawn trais (2Ti 3:3, 13)

Sut bydd Jehofa yn ymateb i'r drygioni ar y ddaear yn ein dyddiau ni? [**Darllena 2 Pedr 3:5-7**]

Fe fydd yn dinistrio pobl annuwiol, gan lanhau'r ddaear o bob peth anghyfiawn (2Pe 3:13)

EFELYCHU FFYDD NOA ER MWYN GOROESI (7 mun.)

Er mwyn goroesi'r dinistr sydd i ddod, mae'n rhaid inni efelychu ffydd Noa [**Darllen Hebraeid 11:7**]

"Pregethwr cyfiawnder" oedd Noa, ac fe adeiladodd arch (2Pe 2:5)

Mae'n rhaid inni hefyd roi ar waith y geiriau "pa mor sanctaidd a duwiol y dylai eich ymarweddiad fod" (2Pe 3:11, 12)

Mae'n rhaid i ni osgoi rhoi gormod o amser i weithgareddau personol (Mth 24:38, 39)

Roedd gan Noa'r ffydd a'r dewrder angenrheidiol i fod yn wahanol i'r byd annuwiol (Ge 6:9; w08-E 6/1 6)

Mae bod yn wahanol yn gofyn am ddewrder

Gofynnwch i chi'ch hun, 'A ydw i'n condemnio ymddygiad llygredig y byd yn dawel drwy fy ymddygiad?' (1Pe 4:3, 4)

Pam roedd ffydd Noa yn gref yn sicrwydd gair Jehofa? (Ge 6:13, 17)

Mae'n debyg bod Noa yn gwybod am broffwydoliaethau oedd wedi dod yn wir (Ge 2:16, 17; 3:16-19)

PEIDIWCH Â METHU PWRPAS HANES Y DILYW (4 mun.)

Fe ysbrydolodd Jehofa Moses i gofnodi hanes y Dilyw er ein lles ni

Heb os, fe gryfhaodd yr hanes hwn ffydd Moses ar gyfer yr heriau y byddai'n wynebu nes ymlaen yn ei fywyd

Gallwn ni ddarllen a myfyrio ar yr hanes ysbrydoledig hwn yn y Beibl er mwyn cryfhau ein ffydd

Yn ogystal iddi fod yn alwad i weithredu, mae hefyd yn ein hatgoffa y bydd Jehofa yn fuan yn ein gwared ni rhag byd anghyfiawn (2Pe 2:9)

Yn fuan iawn, mewn harmoni â phwrpas Jehofa, bydd dynolryw ffyddlon yn cael y cyfle i lenwi'r ddaear, ei gwneud yn baradwys, a byw arni am byth (Ge 1:28; 9:1)

[Glyna'n agos wrth y deunydd yn yr amlinelliad, a chadwa at yr amser a nodwyd ar gyfer pob rhan. Does dim angen darllen na thrafod pob testun y cyfeirir ato. Gweler y llyfr *Ministry School*, tudalennau 52-55, 166-169]